# Ymweliad â safleoedd cynllunio

## Adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd 15 Medi, 2010

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd J Arwel Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Eric Roberts (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Kenneth P Hughes, Richard Owen, T H Jones, J P Williams. |
| **Wrth law:** | Rheolwr Rheoli Cynllunio<br>Swyddog Rheoli Datblygu<br>Cymhorthydd Gweinyddol (SWJ) |
| **Ymddiheuridau:** | Y Cynghorwyr E G Davies, Lewis Davies, Jim Evans |

---

**1 49/C/110D - Codi dau fwthyn gwyliau, lleoli naw o gabanau pren ynghyd â gosod gwaith trin yn Fferm New Inn, y Fali**

Yr Aelod Lleol oedd wedi gofyn am i'r cais hwn gael ei ddwyn i sylw'r Pwyllgor. Argymhelliad y Swyddog oedd y dylid cynnal ymweliad safle fel y gallai'r aelodau ddod yn gyfarwyddyd gyda'r lleoliad a chyd-destun y safle.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio mai cais oedd hwn am 9 Caban Pren, a 2 Fwthyn Gwyliau. O fewn y cynlluniau ar gyfer y safle roedd gwaith plannu newydd i'r ardal a chreu ardal gadwraeth dwr.

Eglurodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod gwrthwynebiad i'r cynllun yn lleol oherwydd materion traffig a phriffyrdd a'r styrbans gaiff ei greu. Nododd y Swyddog Rheoli Datblygu bod y ffordd sy'n arwain i lawr i'r safle arfaethedig yn ffordd breifat un trac gyda gwelededd cyfyngedig i'r ddau gyfeiriad o'r fynedfa arfaethedig.

Holodd y Cynghorydd R L Owen beth fyddai oes y cabanau pren hyn ac a fyddai angen cael rhai eraill yn ei lle mewn blynyddoedd i ddod. Cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio y byddai'r caniatâd cynllunio yn un parhaol ond y byddai angen newid y cabanau coed o bryd i'w gilydd.

Cwestiynu'r gwahaniaeth yn y Polisi wnaeth y Cynghorydd J Arwel Roberts rhwng cabanau coed a chartrefi gwyliau. Ymhelaethodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio ar y mater hwn.

Holodd y Cynghorydd J Penri Williams ynglyn â'r amodau yn ymwneud â hyd yr amser y byddai'r cabanau coed yn cael eu gosod.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio y byddent yn destun amod fyddai'n cyfyngu'r ddeiliadaeth i ddefnydd gwyliau pe caent eu cymeradwyo.

**2 11/C/553 - Cais llawn i godi annedd a chreu mynedfa newydd ar dir yn 28 Stad Gorwel, Amlwch**

Roedd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd R Dylan Jones wedi gofyn am i'r aelodau ymweld â'r safle cyn yr ystyrir y cais yn y Pwyllgor.

Mae'r safle yn ffurfio rhan o ardd rhif 28 Stad Gorwel, Amlwch ac roedd hwn yn gais cynllunio llawn i godi annedd a gwneud gwaith altro i'r fynedfa bresennol.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio mai cais oedd hwn i adeiladu ty, lledu'r fynedfa a chael gwared o wrychyn.

Dangosodd y Rheolwr Rheoli Datblygu lle byddai'r fynedfa newydd ac y byddai symud y gwrychyn yn ei gwneud yn haws i weld wrth fynd i mewn ac allan o'r safle. Soniodd hefyd am waith gwella i'r ffordd oedd yn rhoi mynediad.

Lleisio'i bryderon wnaeth yr Aelod Lleol oherwydd bod cartref hen bobl yn agos iawn, ac oherwydd y byddai yna fwy o drafnidiaeth ac na fyddai yna le parcio i fwy na dau gar.

Holodd y Cynghorydd R L Owen ynglyn â'r cyfyngiad cyflymder yn yr ardal a dywedwyd mai 30 mya ydoedd.

**Y Cynghorydd J Arwel Roberts**
**Cadeirydd**